
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 260A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Karen Lees a Huw Lloyd Jones o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Gwasanaeth yn dal i berfformio'n dda mewn sawl maes, ond nid yw Cynlluniau Gwella nac adroddiadau ar berfformiad y Cyngor mor glir nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallent fod 9

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn sawl un o'i feysydd gwella â blaenoriaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau 9

Nid yw dull y Cyngor o werthuso ei berfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn gyson ac nid yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallai 17

Mae trefniadau corfforaethol a chynllunio'r Cyngor yn ategu gwelliannau'n fwy effeithiol nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, ond bu cynnydd yn arafach na'r hyn a gynlluniwyd mewn ambell faes 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gyngor Sir y Fflint 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 31

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint 35

Atodiad 5
Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor 37

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol, daw'r Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod gwasanaethau yn dal i berfformio'n dda mewn sawl maes ond nid yw Cynlluniau Gwella nac adroddiadau ar berfformiad y Cyngor mor glir nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallent fod.

3 Gwelsom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn sawl un o'i feysydd gwella â blaenoriaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn helpu i gynnal amgylchedd cynaliadwy drwy leihau'r defnydd o ynni a gwella cyfraddau casglu ac ailgylchu gwastraff domestig:
  - gwnaed cynnydd da o ran lleihau allyriadau carbon;
  - mae'r Cyngor bellach yn casglu ystod ehangach o wastraff domestig nag o'r blaen.
- Mae gwasanaethau i gefnogi trigolion agored i niwed yn parhau i wella:
  - mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi asesiad cadarnhaol o wasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd, sy'n dangos arweinyddiaeth gref a chanlyniadau gwell;
  - gwnaed cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth addysg fodern sy'n perfformio'n dda ledled y sir, ond erys perfformiad disgyblion mewn ysgolion cynradd yn is na'r disgwyl;
  - mae'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei flaenoriaeth o ddiwallu'r angen am dai yn y Sir, ond caiff gwelliannau eu gwneud yn raddol;
  - yn ystod 2011-12 bu gwelliant o ran y trefniadau i weinyddu budd-daliadau tai.
- Gwnaed cynnydd da o ran cynnal gweithgareddau a gynlluniwyd sy'n ymwneud â thyfu'r economi leol a helpu pobl sy'n agored i dlodi.
- Dengys gwybodaeth am berfformiad fod perfformiad gwasanaethau unigol yn dda yn aml a'i fod yn parhau i wella.

4 Gwnaethom hefyd nodi nad yw dull y Cyngor o werthuso ei berfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn gyson ac nid yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallai. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru:
  - mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 yn bodloni'r gofynion o dan y Mesur ond
  - nid yw'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn gwneud digon o ddefnydd o ddata a gwybodaeth arall i gefnogi gwerthusiad naratif cytbwys o waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â'i Amcanion Gwella.
- Mae'r Cyngor yn gallu cynnal hunanwerthusiadau cytbwys a ategir gan dystiolaeth dda o rai agweddau penodol ar ei waith, ond mae ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn llai cadarn:
  - mae gwasanaethau cymdeithasol ac addysg wedi llunio dadansoddiadau aeddfed sy'n benodol i wasanaethau o'u perfformiad, ond mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn llai cadarn;
  - er gwaethaf y gwelliannau i wasanaethau, ni all y Cyngor nodi nac adrodd yn llawn ar effaith ei weithgareddau ar gyflawni'r Amcanion Gwella;
  - mae adolygiad parhaus y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu yn eang ei gwmpas ac wedi'i ategu gan dystiolaeth dda.
- Mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa nag o'r blaen i ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol i ategu gwelliant:
  - mae cywirdeb data perfformiad y Cyngor wedi gwella ond erys lle i wella'r defnydd a wneir o ddata yn hunanwerthusiad y Cyngor;
  - mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth yn dda ac mae ei ddull gweithredu yn gadarn ar y cyfan.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad fod trefniadau corfforaethol a chynllunio'r Cyngor yn ategu gwelliannau'n fwy effeithiol nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, ond bu cynnydd yn arafach na'r hyn a gynlluniwyd mewn ambell faes:

- Mae Cynllun Gwella 2012-13 yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion statudol, ond nid yw'n hawdd i drigolion ei ddeall.
- Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo, nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Hydref 2012 ei fod o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-13. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gweithredu ar nifer o'r argymhellion yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 ond roedd rhai prosiectau allweddol a gefnogai'r blaenoriaethau gwella corfforaethol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor canolig wedi parhau ond ni lwyddodd y Cyngor i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Medi 2012, yn ôl y bwriad;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer defnyddio technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

• Mae'r Cyngor yn parhau i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ei fusnes.

• Mae'r Cyngor yn dechrau symleiddio ei drefniadau llywodraethu cymhleth wrth i'r systemau ddatblygu.

# Argymhellion

6 Ni wnawn unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor ac nid ydym wedi edrych ar holl Flaenoriaethau Gwella'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Gwasanaeth yn dal i berfformio'n dda mewn sawl maes, ond nid yw Cynlluniau Gwella nac adroddiadau ar berfformiad y Cyngor mor glir nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallent fod

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn sawl un o'i feysydd gwella â blaenoriaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau

### Mae'r Cyngor yn helpu i gynnal amgylchedd cynaliadwy drwy leihau'r defnydd o ynni a gwella cyfraddau casglu ac ailgylchu gwastraff domestig

#### Gwnaed cynnydd da o ran lleihau allyriadau carbon

11 Mae strategaeth rheoli carbon y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ac mae'r Cyngor yn llwyddo i leihau faint o garbon a ddefnyddir ganddo. Yn 2011-12, rhagorodd y Cyngor ar darged blynyddol Llywodraeth Cymru i leihau carbon 3 y cant a methodd â chyflawni ei darged mwy heriol ei hun, sef 4 y cant, o drwch blewyn. Dyma'r drydedd flwyddyn y cafwyd gwelliant blynyddol. Mae'r Cyngor hefyd ar y trywydd iawn o ran ei gynlluniau i gyflawni ei darged uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon 60 y cant erbyn 2021. Yn sgil y lleihad yn y defnydd o garbon hefyd mae'r Cyngor yn darogan arbedion cyffredinol o ychydig dros £1 filiwn erbyn diwedd 2011-12.

12 Bu cynnydd yn dda hyd yma a chafwyd cefnogaeth wleidyddol gref gan aelodau. Aeth y Cyngor ati i flaenoriaethu ei fuddsoddiad mewn meysydd a oedd yn cynnig y potensial mwyaf o ran arbed ynni. Fodd bynnag, mae hyn, yn anochel, yn golygu y bydd y gost o leihau carbon ymhellach yn cynyddu. Felly, daw'n anos ac yn fwy costus cyflawni targedau lleihau carbon blynyddol yn y dyfodol.

13 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi profi llai o lwyddiant yn ei gynlluniau i godi ymwybyddiaeth y staff o'u rôl wrth leihau costau ynni'r Cyngor. Gallai annog pob aelod o staff i gymryd mwy o berchenogaeth o'r strategaeth lleihau carbon, a bod yn gyfrifol amdani gyda'i gilydd, sicrhau mwy o lwyddiant am gost isel.

14 Er i ddata ar berfformiad gael ei gyflwyno fel mater o drefn fel rhan o fframwaith perfformiad y Cyngor, nid yw'r buddiannau ariannol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth rheoli carbon wedi cael eu hyrwyddo, yn fewnol nac yn allanol. Dylai'r buddiannau ariannol gael eu dathlu'n ehangach, yn enwedig ar adeg pan fo'r pwysau ar y gyllideb yn cynyddu a bod materion cynaliadwyedd yn cael mwy o sylw. Onid eir i'r afael â'r defnydd o wybodaeth am y buddiannau, mae risg y gallai diffyg ymwybyddiaeth am effaith y mentrau hyn wanhau cefnogaeth wleidyddol ac ymrwymiad sefydliadol, a niweidio buddsoddiad parhaus.

### Mae'r Cyngor bellach yn casglu ystod ehangach o wastraff domestig nag o'r blaen

15 Mae dull y Cyngor o ymdrin â gwastraff cartrefi hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau carbon. Mae cynyddu faint o wastraff a gaiff ei ailgylchu a lleihau faint o wastraff a gaiff ei dirlenwi ill dau yn lleihau allyriadau carbon yn anuniongyrchol. Yn 2011, cynyddodd y Cyngor ei wasanaeth casglu gwastraff domestig ar garreg y drws i holl drigolion ac, ar yr un pryd, cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd. Codwyd amrywiaeth o bryderon gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn sgil y newid. Fodd bynnag, ymatebodd y Cyngor yn ddi-oed i'r pryderon hyn ac, yn fuan ar ôl i'r gwasanaeth newydd gael ei gyflwyno'n llawn, datblygodd a gweithredodd gynllun gwella.

16 Gwellodd perfformiad y gwasanaeth casglu gwastraff domestig yn ystod 2011-12, er mai canolbwyntio ar gyflwyno'r gwasanaeth newydd a wnaeth y Cyngor yn bennaf. O ganlyniad i'r broses o newid i'r gwasanaeth newydd, ni wnaeth perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn wella gystal â chynghorau eraill ledled Cymru. Arweiniodd at y Cyngor yn llithro o'r wythfed safle o blith 22 o gynghorau yn 2010-11, i'r 16eg safle yn 2011-12 o ran canran y gwastraff a gaiff ei dirlenwi. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ffyddiog y bydd y trefniadau casglu gwastraff diwygiedig, a gwblhawyd yn ystod ail hanner 2011, yn cael effaith sylweddol ar ei berfformiad casglu gwastraff ar gyfer 2012-13 a thu hwnt.

## Mae gwasanaethau i gefnogi trigolion agored i niwed yn parhau i wella

### Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi asesiad cadarnhaol o wasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd, sy'n dangos arweinyddiaeth gref a chanlyniadau gwell

17 Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd AGGCC adroddiad ar ansawdd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd. Mae asesiad cyffredinol AGGCC o wasanaethau yn gadarnhaol. Nododd y canlynol:

- bod gwybodaeth am rôl Gwasanaethau Plant ar gael yn eang a bod y rheini sy'n cysylltu yn cael ymateb effeithiol, gyda threfniadau cymorth a chyngor prydlon;
- bod ffocws cynyddol ar waith atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n cefnogi'r teulu cyfan, gyda chanlyniadau gwell i blant gan fod angen i lai dderbyn gofal;
- bod trefniadau partneriaeth yn gweithio'n dda o ran sicrhau y caiff anghenion eu diwallu mewn ffordd gyd-gysylltiedig;
- bod Pennaeth Gwasanaethau Plant yn darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol gadarn a bod rheolwyr yn gweithio gyda'r gweithlu i sicrhau ymrwymiad i ffyrdd modern o ddarparu gwasanaethau;
- bod systemau da ar waith i sicrhau bod gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n briodol;

- bod morâl staff yn dda a bod staff gwaith cymdeithasol a'u rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

18 Er bod llawer o nodweddion cadarnhaol yn adroddiad AGGCC, mae nifer o feysydd, serch hynny, lle mae angen i'r Cyngor wella. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau cysondeb o ran dull, ymarfer a dealltwriaeth ymhlith yr holl weithwyr ac o ran ansawdd goruchwyliaeth broffesiynol;
- sicrhau bod nifer briodol o weithwyr profiadol o fewn y system ddyletswydd;
- parhau i fynd i'r afael ag absenoldebau salwch mewn rhai meysydd;
- gwella amseroldeb cofnodion cynadleddau achos a'r ffordd y cânt eu dosbarthu wedi hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio systemau cyfrifiadurol mewn ffordd gymwys a chyson a bod y data yn cael ei gofnodi'n ddi-oed ac yn gyson ar y system gyfrifiadurol.

19 Fel rhan o'r rhaglen waith arfaethedig, mae AGGCC wedi cynnal ymweliad â'r safle yn ddiweddar er mwyn edrych ar rai agweddau ar ddarpariaeth diogelu oedolion y Cyngor, ac mae'r llythyr adborth yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn, ac ymateb y Cyngor, yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

20 Mae llawer o'r gweithgareddau gwella arfaethedig sy'n rhan o Flaenoriaeth Wella'r Cyngor i wneud cymunedau'n ddiogel a diogelu pobl agored i niwed, gan drin plant a phobl hŷn fel grwpiau â blaenoriaeth, yn brosiectau tymor canolig. Disgwylir cwblhau sawl peth allweddol i'w cyflawni yn ystod 2012-13 a byddwn yn adrodd ar gynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r flaenoriaeth eang hon yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf.

## Gwnaed cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth addysg fodern sy'n perfformio'n dda ledled y sir, ond erys perfformiad disgyblion mewn ysgolion cynradd yn is na'r disgwyl

21 Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym mis Hydref 2011, nodwyd bod angen gwneud gwaith dilynol ar y Cyngor drwy uned fonitro Estyn. Cynhaliwyd ymweliad monitro ym mis Chwefror 2013 a nododd y tîm fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu. O ganlyniad, ni fydd y Cyngor yn destun gwaith dilynol gan Uned Fonitro Estyn.

22 Soniodd llythyr Estyn yn dilyn yr ymweliad monitro am gynnydd y Cyngor yn erbyn yr argymhellion a wnaed ar ôl arolygiad 2011. Dyfynnir o lythyr Estyn isod.

23 'Mae'r awdurdod wedi gwella ei drefniadau i gefnogi a herio ysgolion. Mae'n darparu ystod dda o ddadansoddiadau data ar gyfer ysgolion a swyddogion, gan gynnwys cymariaethau gydag ysgolion tebyg gan ddefnyddio'r meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae swyddogion yn defnyddio'r ystod eang hon o ddata i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn fwy cywir. Mae'r

model categoreiddio rhanbarthol yn cynnwys ffocws clir ar asesu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw penaethiaid a llywodraethwyr bob amser yn deall yn glir lefel y cymorth y bydd gan ysgolion hawl iddi o ganlyniad i'r categoreiddio. Ar ôl ymweld ag ysgolion, mae swyddogion yn llunio adroddiadau defnyddiol ar safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau yn amrywio'n sylweddol o ran cynnwys ac ansawdd ac nid yw'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn y dyfodol bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar godi safonau.'

24 'Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu fformiwla ariannu ddiwygiedig ar gyfer ei ysgolion. Mae aelodau ac uwch swyddogion wedi ymgysylltu'n effeithiol â phenaethiaid a swyddogion cyllid i flaenoriaethu'r gwaith hwn. Mae hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran monitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygiad trylwyr o'i bolisi caffael a lleoliadau unigol ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghost gyffredinol y ddarpariaeth.'

25 Caiff sylwadau Estyn ar drefniadau cynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant y Cyngor eu cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

26 Nodwyd gennym yn flaenorol fod y Cyngor bellach yn gwneud cynnydd o ran ad-drefnu ei ysgolion uwchradd er mwyn gwneud defnydd gwell o adnoddau. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol, mae'r Cabinet wedi cytuno ar ei ddewis opsiynau ar gyfer moderneiddio ei ddarpariaeth ysgolion yn ardaloedd Treffynnon, Cei Conna/Shotton/Queensferry a Bwcle/Mynydd Isa/yr Wyddgrug o'r sir. Ers hynny mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n ffurfiol ar y dewis opsiynau. Gwnaed cynnydd hefyd yn y sector ysgolion cynradd; mae'r Cyngor wedi agor ysgol newydd yng Nghei Conna ac wedi uno pedwar pâr o ysgolion babanod ac ysgolion iau.

27 Pan ystyriwn lefelau cyrhaeddiad addysgol, nododd Estyn fod darlun cymysg yn 2012. Bu gwelliannau o ran rhai dangosyddion yn Sir y Fflint, ond ni welwyd y cynnydd hwn ym mhob maes, ac roedd perfformiad islaw'r hyn a allai fod yn ddisgwyliedig mewn sawl un arall, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

28 Yn dilyn ei hymweliad monitro ym mis Chwefror 2013 nododd Estyn: 'Yn 2012, roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella yng nghynt na Chymru. Mae'n parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg ac ar gyfer trothwy lefel 1 hefyd. Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal â'r disgwyl yn unol â lefelau uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, gostyngodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac roedd y gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn arafach nag yng Nghymru yn gyffredinol.

29 Wrth gymharu perfformiad ysgolion Sir y Fflint gydag ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 uwchlaw'r cyfartaledd ar dri o'r pum dangosydd ac yn debyg i'r cyfartaledd ar y ddau sy'n weddill. Fodd bynnag, mae ychydig islaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ac ymhell islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 lle mae hanner o'r holl ysgolion yn y 25 y cant isaf ac nid oes unrhyw ysgolion yn y 25 y cant uchaf.

30 Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion er ei fod yn fwy yng nghyfnod allweddol 2.'

Mae'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei flaenoriaeth o ddiwallu'r angen am dai yn y Sir, ond caiff gwelliannau eu gwneud yn raddol

31 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2012, gwnaethom nodi fod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd tuag at gael pleidlais ar drosglwyddo'r stoc tai a bod hwn yn gam pwysig o ran gwella ansawdd ei stoc tai. Ym mis Mawrth 2012, cynhaliodd y Cyngor bleidlais i'w denantiaid ar yr opsiwn o drosglwyddo ei stoc i gymdeithas dai. Roedd y nifer a bleidleisiodd yn uchel, sef 71 y cant o denantiaid. O'r rhain, pleidleisiodd 88 y cant yn erbyn y cynnig i drosglwyddo'r stoc o'r Cyngor.

32 Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Dai yn annog mwy o weithredu gan landlordiaid cymdeithasol er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn ei tharged diwygiedig, sef 2020. Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau Tai ar gyfer 2012-2018 sy'n nodi cynllun y Cyngor ar gyfer cynnal ei stoc tai. Mae'r cynllun hwn yn ystyried anghenion buddsoddi cartrefi ledled y sir a'r arian sydd ar gael i wneud gwelliannau o'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif y bydd angen buddsoddi tua £166 miliwn er mwyn sicrhau bod eiddo yn cyrraedd SATC a mae cynllun busnes diweddaraf y Cyngor yn anelu at gyrraedd y targed hwn erbyn 2022.

33 Mae Sir y Fflint yn un o blith dim ond tri chyngor yng Nghymru sy'n darogan na fydd ei stoc yn cyrraedd SATC yn llawn erbyn diwedd y degawd. Mae'r Cyngor yn darogan mai dim ond 26 o'i gartrefi a fydd yn cyrraedd y Safon yn llawn erbyn 2020. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddiwygio Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, a all alluogi'r Cyngor i gynyddu'r swm o wariant cyfalaf sydd ar gael i gyrraedd y Safonau yn y blynyddoedd i ddod.

34 Nododd y Cyngor ei fod wedi gwneud ei wasanaethau tai yn fwy effeithlon yn 2011-12. O ganlyniad, lleihawyd yr amser y mae eiddo'r Cyngor yn wag a bu gwelliannau i amseroedd ymateb ar gyfer atgyweiriadau brys ac atgyweiriadau ar fyrder.

35 Mae Blaenoriaeth Wella'r Cyngor ar gyfer tai yn ehangach na gwella ansawdd stoc y Cyngor yn unig. Mae'r Cyngor hefyd am weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o gartrefi fforddiadwy o ansawdd ar gael a helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd ar fin bod yn ddigartref. Mae'r Cyngor wedi gosod targed heriol i'w hun sef, erbyn 2016, na fydd unrhyw un sy'n ddigartref yn cael ei roi mewn llety dros dro am fwy na 12 mis. Yn ystod 2011-12, treuliodd aelwydydd digartref 208 diwrnod mewn llety dros dro yn Sir y Fflint ar gyfartaledd. Er bod hyn yn well na'r 225 diwrnod y flwyddyn gynt, mae'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru, sef 140 diwrnod.

36 Yn Sir y Fflint, bu tuedd debyg i'r hyn a welwyd yng Nghymru o ran nifer yr aelwydydd a dderbynnir fel rhai digartref a gwelodd Gwasanaeth Digartref y Cyngor gynnydd o 37 y cant yn nifer y bobl a ofynnodd am help yn 2011-12. Gwaethygodd perfformiad y Cyngor o ran cymryd camau i atal digartrefedd yn 2011-12 er ei fod ychydig yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

37 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau bod digon o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat. Roedd y 71 o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd yn Sir y Fflint yn 2011-12 yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, er bod hyn yn llai na'r 115 o gartrefi a gwblhawyd yn 2010-11 ac islaw'r targedau a osodwyd gan y Cyngor iddo'i hun. Yn ogystal â'i waith parhaus ei hun i ddarparu eiddo fforddiadwy yn y sir, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â chynghorau a phartneriaid eraill, gan gynnwys Cynghorau Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam.

## Yn ystod 2011-12 bu gwelliant o ran y trefniadau i weinyddu budd-daliadau tai

38 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-daliadau tai yn gwella. Yn 2011-12, gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran gwella amseroedd prosesu cyfartalog ceisiadau newydd a hysbysiadau am newid mewn amgylchiadau, a oedd yn llawer byrrach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Bu gwelliant yng nghanran y ceisiadau newydd y penderfynwyd arnynt o fewn 14 diwrnod ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er i nifer yr atgyfeiriadau atal twyll leihau, cynyddodd nifer yr ymchwiliadau a sancsiynau llwyddiannus.

39 Mewn rhai meysydd allweddol eraill, roedd perfformiad yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gostyngodd canran y gordaliadau a nodwyd ac a adenillwyd ac roedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gwnaed mwy o geisiadau ailystyried neu ddiwygio a chymerodd fwy o amser i ymdrin â'r rhain na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Y gwasanaeth hwn oedd â'r nifer fwyaf o apeliadau o blith unrhyw gyngor yng Nghymru a gwnaeth hefyd gymryd mwy o amser i'w cyflwyno i'r Gwasanaeth Apeliadau na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Sefydlwyd tîm sicrhau ansawdd a hyfforddi dynodedig er mwyn gweithredu cynllun gwella i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cywirdeb hanesyddol y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn cyfrannu at nifer yr apeliadau a ddaw i law.

40 Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar leihau'r amser a gymerir i ymdrin â cheisiadau ailystyried neu ddiwygio ac apeliadau. Byddwn yn monitro cynnydd yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth roi'r newidiadau a gyflwynwyd gan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU ar waith.

## Gwnaed cynnydd da o ran cynnal gweithgareddau a gynlluniwyd sy'n ymwneud â thyfu'r economi leol a helpu pobl sy'n agored i dlodi

41 Yn ystod 2011-12, gwnaeth y Cyngor gynnydd da gyda mentrau y bwriadwyd iddynt gefnogi a hyrwyddo gweithgarwch economaidd; er enghraifft, cafodd pedwar Prif Gynllun Canol Tref newydd eu lansio. Sicrhaodd y Cyngor gymeradwyaeth hefyd ar gyfer Ardal Fenter newydd Glannau Dyfrdwy fel lleoliad strategol allweddol ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch yng Nghymru. Mae'r dynodiad hwn yn hynod bwysig i'r Sir, oherwydd mae traean o'i swyddi yn gysylltiedig â gweithgynhyrchu, bron i deirgwaith cyfartaledd Cymru gyfan.

42 Mae adfywio a datblygu economaidd yn feysydd heriol i gynghorau ddangos effaith. Efallai na fydd dylanwad mentrau cynghorau ar yr economi i'w gweld am sawl blwyddyn a bydd ffactorau allanol, sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr economi. Mae rhai cynghorau yn defnyddio data ystadegol a luniwyd gan sefydliadau allanol i fonitro cyflwr eu heconomïau lleol a chyflwyno adroddiadau arnynt, ynghyd ag unrhyw newidiadau i lefelau tlodi o fewn eu cymunedau. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio data yn y ffordd hon fel rhan o'i drefniadau i gyflwyno adroddiadau chwarterol neu flynyddol rheolaidd ar berfformiad.

43 Mae ein hymchwil ein hunain yn awgrymu bod economi Sir y Fflint yn parhau'n weddol wydn o gymharu â rhai rhannau eraill o Gymru. Er enghraifft, mae lefelau diweithdra yn Sir y Fflint yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan ac, yn ystod 2011-12, bu gostyngiad llawer cyflymach[1]. Yn yr un modd, mae cyfran y trigolion yn Sir y Fflint sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn sylweddol is[2] na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru; er i gyfran y trigolion a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Sir y Fflint gynyddu ychydig yn ystod 2011-12, roedd y cynnydd cyfartalog ledled Cymru yn fwy. Yn 2008, roedd Sir y Fflint yn yr 221$^{fed}$ safle o blith 380 o ranbarthau awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr ym Mynegai Cystadleurwydd y DU[3]. Yn 2010, ni welwyd fawr ddim newid gan symud un safle i 220$^{fed}$. Ni chyhoeddwyd safleoedd 2012 eto ond pan fyddant ar gael rhoddir cipolwg pellach ar effeithiolrwydd ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid i ddiogelu ac ysgogi'r economi leol.

1 Canran y trigolion economaidd weithgar, diwaith ym mis Medi 2012: Sir y Fflint: 6.3 y cant, Cymru 8.4 y cant. Newid Gostyngol yng nghanran y diwaith, ers mis Mawrth 2011: Sir y Fflint un pwynt canran, Cymru 0.1 pwynt canran. Ffynhonnell: Nomis, gwasanaeth a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhydd fynediad am ddim i'r ystadegau mwyaf manwl a chyfredol ar farchnad lafur y DU o ffynonellau swyddogol. http://www.nomisweb.co.uk/default.asp

2 Canran y boblogaeth breswyl a oedd yn hawlio LCG ym mis Chwefror 2013: Sir y Fflint: 3.3 y cant, Cymru: 4.3 y cant. Cynnydd yn y ganran a oedd yn hawlio LCG rhwng mis Mawrth 2011 a mis Mawrth 2012: Sir y Fflint: 0.2 pwynt canran, Cymru 0.4 pwynt canran. Ffynhonnell: Nomis

3 Rhydd y Ganolfan Cystadleurwydd Rhyngwladol wybodaeth am gystadleurwydd economïau a busnesau. Mae'n cynhyrchu Mynegai Cystadleurwydd y DU, sy'n rhoi data meincnodi ar gystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y DU http://www.cforic.org. Caiff y Mynegai ei ddiweddaru bob dwy flynedd. Digwyddodd hyn yn 2010 ddiwethaf.

44 Mae'r Cyngor hefyd wedi bod wrthi'n datblygu mentrau i drechu tlodi yn y Sir a lliniaru effaith ddisgwyliedig diwygiadau lles ar ei dinasyddion. Mae Strategaeth Adfywio'r Cyngor 2009-2020 yn nodi 'bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar amgylchiadau economaidd pobl, yn awr ac yn y dyfodol, a gall y rhain gynnwys cyrhaeddiad addysgol, iechyd, amgylchiadau byw, cyfrifoldebau gofalu ac amgylchiadau teuluol.' Er iddo gydnabod y ffactorau hyn, prin y mae'r Cyngor yn defnyddio dangosyddion i fesur llwyddiant ei waith yn y maes hwn. Oni bai bod y Cyngor yn cymryd camau mwy hyddysg, gan ddefnyddio ystod ehangach o ddata mewnol ac allanol ar berfformiad, ni fydd yn gallu monitro effaith y cymorth a roddir ganddo a theilwra ei ddull gweithredu mewn ffordd briodol. Er enghraifft, yn 2012, roedd cyflog llawn amser cyfartalog dynion a oedd yn byw yn Sir y Fflint yn sylweddol uwch  na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac roedd yn debyg i'r cyfartaledd ledled Prydain Fawr. I'r gwrthwyneb, roedd cyflog llawn amser cyfartalog menywod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac roedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Er na all y Cyngor ddylanwadu ar gyflogau, gallai gwell ymwybyddiaeth o'r fath wahaniaethau a threfniadau i'w monitro'n rheolaidd ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn teilwra eu haddysg, hyfforddiant a chymorth busnes.

45 Mae'r Cyngor wedi ei chael hi'n anodd dangos yn effeithiol y cynnydd y mae wedi'i wneud tuag at gyflawni sawl un o'i Flaenoriaethau Gwella. Mewn sawl achos, mae hyn yn deillio o ddiffyg mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghynllun Gwella 2011-12. Yn y rhan nesaf o'r adroddiad, edrychwn yn fanylach ar ba mor dda y mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn 2011-12.

## Dengys gwybodaeth am berfformiad fod perfformiad gwasanaethau unigol yn dda yn aml a'i fod yn parhau i wella

46 Roedd perfformiad Sir y Fflint yn 2011-12 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dros ddwy ran o dair o'r dangosyddion cenedlaethol statudol ac anstatudol. Dengys perfformiad y Cyngor welliant yn 28 (72 y cant) o'r 39 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol y gellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol.

4 Cyflogau Llawn Amser Wythnosol Gros Cyfartalog (2012) Dynion yn Sir y Fflint £545.70, Cymru: £493, Prydain Fawr: £548.80, Menywod yn Sir y Fflint £402.80, Cymru: £406.70, Prydain Fawr: £449.60. Ffynhonnell: Nomis

## Nid yw dull y Cyngor o werthuso ei berfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn gyson ac nid yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r graddau y gallai

47 O dan y Mesur mae'n ofynnol i Gynghorau werthuso eu perfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ei feincnodi, a chyflwyno adroddiad ar y wybodaeth. Rydym yn adolygu pa mor dda y gwnaeth cynghorau gydymffurfio â'r agwedd hon ar y Mesur a'r canllawiau cysylltiedig. Daeth ein hadolygiad o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2011-12 i'r casgliad canlynol:

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

48 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur;
- nid yw'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn gwneud digon o ddefnydd o ddata a gwybodaeth arall i gefnogi gwerthusiad naratif cytbwys o waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â'i Amcanion Gwella.

#### Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur

49 Cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol (yr Adroddiad) yn Gymraeg a Saesneg ar ei wefan ar amser. Drwy fodloni'r terfyn amser hwn, bu gwelliant ar y llynedd ac mae hyn yn mynd i'r afael yn rhannol ag un o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella.

50 Mae'r Adroddiad yn cynnwys asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn erbyn yr Amcanion Gwella a nodwyd yng Nghynllun Gwella 2011-12. Ceir adrannau sy'n cynnwys perfformiad y Cyngor fel y'i mesurwyd gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol ac amrywiaeth o ddangosyddion anstatudol.

#### Nid yw'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn gwneud digon o ddefnydd o ddata a gwybodaeth arall i gefnogi gwerthusiad naratif cytbwys o waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â'i Amcanion Gwella

51 Rhydd yr Adroddiad asesiad cyffredinol clir, gan ddefnyddio codau lliw 'Coch, Melyn, Gwyrdd' (CMG), i ddangos pa mor dda y cred y Cyngor iddo berfformio yn ystod 2011-12 yn erbyn pob un o'i 10 Amcan Gwella.

52 Mae asesiad cyffredinol y Cyngor o'i berfformiad yn erbyn pob Amcan Gwella yn gyson, yn fras, â'i asesiad o lwyddiant neu fethiant y gweithgareddau gwella cyfrannol. Fodd bynnag, mae'r naratif yn dueddol o ganolbwyntio gormod ar lwyddiant; hyd yn oed yn yr amcanion a'r gweithgareddau hynny sy'n felyn. O ganlyniad, nid yw'r dystiolaeth a geir yn yr Adroddiad yn ategu asesiadau CMG y Cyngor o 'ganlyniadau' ei waith yn ystod y flwyddyn yn llawn.

53 Yn y cyflwyniad i'r Adroddiad, mae'r Cyngor yn cydnabod, yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011-12, fod y mesurau llwyddiant meintiol a oedd yn gysylltiedig â'i Amcanion Gwella yn gyfyngedig i nifer fechan o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. Nid yw un o'r mesurau a nodwyd yn ymwneud, er enghraifft, â boddhad cwsmeriaid na data arall sy'n deillio o waith y Cyngor yn ymgysylltu â'i ddinasyddion.

54 Mae'r Adroddiad yn ddogfen hir a manwl. Er iddo gael ei ysgrifennu'n glir ar y cyfan, nid yw'n galluogi'r darllenydd i ddeall yn hawdd werthusiad cryno o'r hyn roedd y Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, manteision hynny i'r cyhoedd a'r hyn y mae angen ei wella yn y dyfodol.

55 Felly, nid yw'r Adroddiad yn gwneud cymaint ag y dylai i alluogi pobl Sir y Fflint i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad. Cyfyngir ar yr atebolrwydd hwn ymhellach gan y ffaith bod y Cyngor, wrth adolygu ei waith yn ystod y flwyddyn, wedi gwneud newidiadau i'w gynlluniau a'i dargedau, na chawsant wedyn eu hymgorffori yn y fersiwn o Gynllun Gwella 2011-12 a gyhoeddwyd ar ei wefan.

## Mae'r Cyngor yn gallu cynnal hunanwerthusiadau cytbwys a ategir gan dystiolaeth dda o rai agweddau penodol o'i waith ond mae ei Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn llai cadarn

### Mae Gwasanaethau Cymdeithasol ac addysg wedi llunio dadansoddiadau aeddfed sy'n benodol i wasanaethau o'u perfformiad, ond mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn llai cadarn

56 Ym marn AGGCC, mae'r adroddiad blynyddol a ysgrifennwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn rhoi darlun cywir a chynhwysfawr o berfformiad y gwasanaeth yn ystod 2011-12. Nododd AGGCC hefyd, yn ei hunanwerthusiad, fod y Cyngor wedi cysoni ei dystiolaeth yn ofalus er mwyn ategu ei werthusiad, a oedd yn canolbwyntio fwyfwy ar dargedau mesuradwy, wedi'u hategu gan amserlenni a llinellau atebolrwydd clir at ddibenion cyflawni.

57 Yn yr un modd, ym mis Hydref 2011, dywedodd Estyn fod proses hunanwerthuso'r Cyngor o ran ei wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn 'ddigonol' (cryfderau yn drech na meysydd ar gyfer gwella). Nododd Estyn fod cryn dipyn o adroddiad hunanwerthuso'r Cyngor yn werthusol ac yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys data priodol. O ran gwendidau, nododd Estyn nad oedd y Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid ac asiantaethau eraill na phobl ifanc yn ddigon da wrth lunio barn ar ansawdd a safonau.

58 Pan gynhaliodd Estyn yr ymweliad dilynol yn 2013, nododd fod gan y Cyngor ‘drefniadau cynhwysfawr ar gyfer cynllunio a rheoli perfformiad. Mae’n arfarnu ei berfformiad bob chwarter ac yn cwblhau hunanarfarniad blynyddol. Fodd bynnag, mae’r trefniadau hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar gofnodi camau a gwblhawyd yn hytrach nag arfarnu p’un a yw’r rhain wedi ysgogi gwelliant. Mae cynllun y gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes yn nodi themâu a blaenoriaethau polisi priodol ar gyfer gweithredu arnynt. Fodd bynnag, mae cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth yn canolbwyntio ar fesurau cyflwyno yn hytrach na deilliannau, ac ni chaiff mentrau a phrosiectau unigol eu harfarnu’n ddigon da i wybod p’un a ydynt yn cael effaith. O ganlyniad, nid yw aelodau etholedig ac uwch swyddogion bob amser yn gwybod faint yn union o gynnydd a wnaed ac ni allant ddwyn pobl eraill i gyfrif yn gyson’.

59 Er gwaethaf yr asesiadau defnyddiol hyn ar lefel gwasanaeth, mae’r gwerthusiadau yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor o’r Amcanion Gwella hynny y mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg yn cyfrannu atynt fwyaf, fel y nodwyd yn gynharach, yn canolbwyntio gormod ar weithgarwch yn hytrach na chanlyniadau.

### Er gwaethaf y gwelliannau i wasanaethau, ni all y Cyngor nodi nac adrodd yn llawn ar effaith ei weithgareddau ar gyflawni’r Amcanion Gwella

60 Mae defnydd cyfyngedig y Cyngor o gysylltiadau clir rhwng y gweithgareddau a gynhelir ganddo a’r canlyniadau’n ymwneud â llawer o feysydd gwasanaeth. Nid yw llawer o’r wybodaeth a roddir yn cyfeirio at y canlyniadau a nodwyd ac mae’r naratif yn aml yn cyfeirio at waith a gynllunnir ar gyfer y dyfodol. Mae’r diffyg hwn yn arbennig o bwysig ar adeg pan fo arian yn brin a phan fo angen i’r Cyngor bwyso a mesur yn ofalus sut mae’n dymuno dyrannu ei adnoddau.

61 Mae’r Cyngor wedi gwneud llawer o waith yn 2011-12, er enghraifft, wrth foderneiddio gwasanaethau stryd, cynnal adolygiad cynhwysfawr o’r cymorth a roddir i bob tenant mewn tai gwarchod a chydleoli’r holl wasanaethau stryd gweithredol yn Nepo Alltami. Eto i gyd, nid yw buddiannau hyn oll yn glir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

62 I raddau mwy neu lai, mae’r un materion yn gymwys i 10 maes â blaenoriaeth y Cyngor. Mae ei drefniadau presennol ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn dal i fod yn angenrheidiol, nid lleiaf am fod llawer o’r dangosyddion y mae’n cyflwyno adroddiadau arnynt yn orfodol. Fodd bynnag, mae’r diffyg datganiad clir sy’n nodi’r gwahaniaeth y mae gwaith y Cyngor yn ei wneud i fywydau pobl sy’n byw ac yn gweithio yn y Sir yn arwyddocaol. Bydd dull gweithredu mwy hyddysg, a all nodi a monitro buddiannau, canlyniadau ac effaith yn helpu’r Cyngor i ganolbwyntio ei ymdrechion a’i adnoddau mewn ffordd fwy deallus.

Mae adolygiad parhaus y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu yn eang ac yn seiliedig ar dystiolaeth dda

63 Mae'r Cyngor yn cynnal hunanwerthusiad o'i drefniadau llywodraethu, yn ogystal â'i berfformiad strategol a gwasanaeth, a pherfformiad partneriaethau y mae'n cyfrannu atynt. Rydym yn parhau i gefnogi a herio'r gwaith hwn a byddwn yn rhoi adborth maes o law. Ar adeg drafftio'r Adroddiad hwn, nid oedd arweinwyr y Cyngor eto wedi penderfynu ar y ffordd orau o gynnwys cynghorwyr yn llawn yn yr hunanwerthusiad. Fodd bynnag, mae ein hargraffiadau cynnar yn awgrymu bod swyddogion wedi defnyddio ystod eang o dystiolaeth hyd yma.

## Mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa nag o'r blaen i ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol i ategu gwelliant

Mae cywirdeb data perfformiad y Cyngor wedi gwella ond erys lle i wella'r defnydd a wneir o ddata yn hunanwerthusiad y Cyngor

64 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 gwnaethom gynnig y dylai'r Cyngor wella trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y data a ddefnyddir i gefnogi gwaith rheoli perfformiad yn gywir ac yn gadarn.

65 Ym mis Gorffennaf 2012, cyflwynwyd adroddiad gennym ar ganlyniadau ein harchwiliad o gywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Er bod ein sampl yn llai nag yn y gorffennol, roedd y canlyniadau'n galonogol. Ni chafodd unrhyw un o ddangosyddion perfformiad y Cyngor eu hamodi a dim ond un dangosydd a gafodd ei ddiwygio gennym. Mae cadernid y data ar berfformiad yn gonglfaen allweddol o ran galluogi'r Cyngor a'i ddinasyddion i ddibynnu ar asesiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun. Fodd bynnag, cyfeiriwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn at feysydd lle gallai'r Cyngor wella ac ehangu'r ffordd y mae'n defnyddio data i werthuso ei berfformiad a gwella'r broses o reoli gwasanaethau.

Mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth ac mae ei ddull gweithredu yn gadarn ar y cyfan

66 Gwnaethom hefyd adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei wybodaeth. Nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor yn rheoli ei wybodaeth yn dda ac mae'n dechrau ysgogi newid yn fwy effeithiol nag o'r blaen, gan ategu i raddau mwy ei nodau i wneud gwelliannau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd;
- mae trefniadau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ond nid oes gan y Cyngor drefniadau hyfforddi cryf na swyddog atebol penodol i gymryd cyfrifoldeb ar lefel uwch am yr ased gwybodaeth a'r risgiau sydd ynghlwm wrthi i'r Cyngor.

67 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynglŷn ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, mae dal i fod lle i wella rheolaethau ariannol mewn nifer o feysydd ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei waith cynllunio ariannol er mwyn ei helpu i ateb yr heriau ariannol sydd i ddod. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae trefniadau corfforaethol a chynllunio'r Cyngor yn ategu gwelliannau'n fwy effeithiol nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, ond bu cynnydd yn arafach na'r hyn a gynlluniwyd mewn ambell faes

68 Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Gabinet newydd ac Arweinydd newydd. Mae'r Cabinet yn cynnwys saith Aelod o'r Blaid Lafur ac un Aelod Annibynnol. Mae gan yr wyth Aelod gyfrifoldebau Arwain Portffolio am bortffolio o weithgareddau'r Cyngor. Mae'r Cabinet wedi cytuno i barhau â'r 10 Amcan Gwella presennol, er ei fod wedi diwygio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu sylfaenol ychydig er mwyn adlewyrchu ei fwriadau gwleidyddol.

69 Mabwysiadodd y Cyngor newydd ei Gynllun Gwella ym mis Hydref 2012 a gwnaethom adolygu'r Cynllun hwn er mwyn asesu'r graddau roedd yn cydymffurfio â'r Mesur a Chanllawiau cysylltiedig. Nodwyd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### Mae Cynllun Gwella 2012-13 yn bodloni gofynion y Mesur ym mhob ffordd ond un, ond nid yw'n hawdd i Drigolion ei ddeall

70 Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2012-2017. Mae'r 10 blaenoriaeth hyn, sydd hefyd yn cynrychioli Amcanion Gwella'r Cyngor, yn eang eu cwmpas ac yn cydymffurfio ag o leiaf un o'r saith 'agwedd ar wella' a ddisgrifir yn y Mesur. Mae a wnelo chwe blaenoriaeth â gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac mae a wnelo pedwar â gwella gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint wedi ardystio Amcanion Gwella'r Cyngor fel rhai sy'n ategu 'Gweledigaeth y Sir' fel y'i nodwyd yn Strategaeth Gymunedol 2009-2019.

71 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau nodi yn eu Cynlluniau Gwella eu camau arfaethedig mewn ymateb i unrhyw argymhellion statudol a gafwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys y wybodaeth hon ond cafodd y wybodaeth ofynnol ei chynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r Cynllun. Mae 10 Amcan Gwella'r Cyngor wedi'u geirio mewn ffordd sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor i wella canlyniadau i ddinasyddion dros y pum mlynedd tan 2017. Er mwyn cefnogi'r Amcanion Gwella, mae'r Cyngor wedi diffinio 66 o Flaenoriaethau Eilaidd sy'n nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn fanylach. Disgrifir y Blaenoriaethau Eilaidd hyn yn bennaf yn ôl y camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Fodd bynnag, mewn sawl achos, nid yw'r Cynllun yn cynnwys digon o wybodaeth am berfformiad cyfredol i alluogi cynghorwyr a darllenwyr y Cynllun i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

72 Mae'r Cynllun yn anelu at gyflawni dwy swyddogaeth: mae'n anelu at fod yn adnodd rheoli mewnol; ac ar yr un pryd, mae'n fodd i ddinasyddion Sir y Fflint ddeall yn well yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni a'i ddwyn i gyfrif am wneud hynny. Wrth geisio cyflawni'r ddau nod hyn, mae lle i wella'r dull o gyflwyno'r Cynllun a'i gynnwys. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn cynnwys gormod o wybodaeth ar gyfer dinasyddion, ond nid digon at ddibenion rheoli mewnol. Penderfynodd y Cyngor beidio â llunio crynodeb o'i Gynllun ac, felly, gollodd gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo ei nodau a'i amcanion yn ehangach.

73 O ystyried bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau bennu eu Hamcanion Gwella bob blwyddyn, mae'r Cyngor wedi cytuno y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried dewis llai o amcanion o blith ei flaenoriaethau presennol fel bod ei ffocws mewn blwyddyn yn fwy penodol a'i fod yn annog dinasyddion i ymgysylltu'n fwy llawn â gwaith cynllunio a pherfformiad y Cyngor.

74 Yn ein Llythyr ym mis Hydref 2012, gwnaethom adrodd ar debygolrwydd y Cyngor o gyflawni gwelliant parhaus, fel y disgrifir yn y Mesur. Disgrifir y casgliad a'r canfyddiadau ategol isod:

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo, nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Hydref 2012 ei fod o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-13

75 Er mwyn dod i'r casgliad hwn, ystyriwyd trefniadau'r Cyngor i'w helpu i gyflawni ei Gynllun Gwella sydd ar ddod. Ym mis Awst 2010, roeddem wedi nodi nad oedd rhai o'r trefniadau hyn yn llawn gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei welliannau arfaethedig, gan gynnwys y fframwaith polisi a strategaeth, defnydd o adnoddau, prosesau busnes a rheoli pobl. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn llawer o'r meysydd hyn.

76 Daethom i'r casgliad hwn ym mis Hydref 2012 oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gweithredu ar nifer o'r argymhellion yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf ond mae rhai prosiectau allweddol i gefnogi'r blaenoriaethau gwella corfforaethol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor canolig yn parhau, ond nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Medi 2012, yn ôl y bwriad;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus;
- mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cyhoeddi asesiad cadarnhaol o wasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd, sy'n dangos arweinyddiaeth gref a chanlyniadau gwell (fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn).

77 Yn ystod y flwyddyn, rydym ni, a sefydliadau eraill, wedi cynnal adolygiadau o wasanaethau neu drefniadau'r Cyngor. Cafwyd adroddiadau ar sawl darn o waith ar ôl i ni wneud sylwadau ar debygolrwydd y Cyngor o gyflawni gwelliant parhaus ym mis Hydref 2012. Rydym wedi cynnwys y rhain isod, gan eu bod yn cyfrannu at yr asesiad blynyddol cyffredinol a wnawn yn yr Adroddiad hwn, ar waith cynllunio gwelliant y Cyngor.

**Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gweithredu ar nifer o'r argymhellion yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 ond roedd rhai prosiectau allweddol a gefnogai'r blaenoriaethau gwella corfforaethol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl**

78 Rydym eisoes wedi nodi nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a hefyd rai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir rhestr lawn o'n hargymhellion a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella yn Atodiad 5, ynghyd â'n hasesiad o gynnydd hyd yma a'n cynlluniau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. Crynhoir cynnydd ar rai o'r materion hyn isod.

79 Mae'r Cabinet (a'r Weithrediaeth yn flaenorol) wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf gan swyddogion am gynnydd y Cyngor o ran cyflawni un o'i Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12, sef 'bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg sy'n cynnig cyflog a thelerau ac amodau gwaith teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl'. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, gan fod y dyddiad ar gyfer gweithredu Statws Sengl yn llawn yn parhau i gael ei adolygu, ar ôl cael ei ohirio unwaith eto. Yn hyn o beth, ni lwyddodd y Cyngor i gyflawni ei amserlen fwriadedig, fel yr argymhellwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.

80 Mae'r gwaith o lunio cytundeb Statws Sengl yn gymhleth ac mae'r Cyngor yn ddealladwy wedi gofyn am gymorth allanol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r Cyngor yn deall ac yn derbyn bod risgiau ariannol yn gysylltiedig â rhoi'r Statws Sengl ar waith a setlo ceisiadau presennol a phosibl am gyflog cyfartal. Mae wedi neilltuo cronfeydd ariannol wrth gefn i liniaru'r risgiau hyn. Fodd bynnag, daeth ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2011-12 i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn rhy barod i ddibynnu ar amcangyfrifon a luniwyd yn allanol ar gyfer ceisiadau am gyflog cyfartal heb eu hadolygu na'u herio'n ddigonol. O ganlyniad, diwygiodd y Cyngor y ffigur a oedd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon i adlewyrchu'r atebolrwydd at ddibenion cyfrifyddu yn well. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i amcangyfrif y gwir atebolrwydd. Bydd graddau'r atebolrwydd hwn yn deillio o'r cytundeb Statws Sengl a thrwy negodi ag Undebau Llafur.

81 Ym mis Ionawr 2012, argymhellwyd y dylai'r Cyngor gwblhau ei waith ar feintioli manteision ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-2013. Mae rhan allweddol o'r rhaglen hon, a elwir yn 'Dyfodol Sir y Fflint', yn elfen bwysig o waith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae Dyfodol Sir y Fflint hefyd yn rhan o flaenoriaeth Wella'r Cyngor i 'fod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost-effeithiol. Mae Dyfodol Sir y Fflint cefnogi gallu'r Cyngor i barhau i gynnal gwasanaethau a buddsoddi ynddynt pan fo llai o arian allanol. Mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn uchelgeisiol ac yn cynnwys pum ffrwd gwaith pwysig. Mae uwch swyddogion yn cydnabod bod cynnydd yn amrywio ar draws y ffrydiau gwaith, a'i fod yn arafach na'r bwriad mewn nifer o feysydd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i gynnal a, lle y bo angen, gynyddu momentwm a gwella'r broses gyffredinol o lywodraethu'r rhaglen. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith penodol i bennu effeithiau llawn yr arbedion ariannol y gellid eu harchifo drwy Dyfodol Sir y Fflint.

82 Gwnaed cynigion ar gyfer gwella ac yna argymhelliad ffurfiol i wella trefniadau cyflenwi ac adrodd y Strategaeth Adnoddau Dynol. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn rhan o flaenoriaeth Wella'r Cygor i 'fod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost-effeithiol'. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'r broses o gyflenwi'r Strategaeth Adnoddau Dynol a bellach cyflwynir adroddiadau cliriach i Aelodau ar gynnydd y broses gyflenwi. Mae'r amser a gymerwyd i gyflwyno cytundeb Statws Sengl a chwblhau'r gwaith o ad-drefnu'r gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi arwain at ail-flaenoriaethu sawl prosiect Adnoddau Dynol ymhellach. Caiff y prosiectau hyn eu cynnwys yn Strategaeth Rheoli Pobl nesaf y Cyngor.

83 Mae aelodau yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y 10 Blaenoriaeth Wella. Mae'r adroddiadau yn cynnwys enw'r swyddog sy'n atebol am y gwaith ond ni enwir yr aelod Cabinet sy'n gyfrifol. Byddai enwi'r arweinydd gwleidyddol ochr yn ochr â'r swyddog arweiniol yn helpu i atgyfnerthu cyfrifoldebau'r swyddogion a chynghorwyr ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

**Mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor canolig wedi parhau ond ni lwyddodd y Cyngor i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Medi 2012, yn ôl y bwriad**

84 Dywedodd swyddogion wrth y Cabinet ym mis Mehefin 2012 eu bod yn bwriadu cwblhau cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a diweddaru'r strategaeth ariannol erbyn diwedd mis Medi 2012. Ar adeg ysgrifennu ein hail lythyr diweddaru i'r Cyngor ym mis Ionawr 2013, roedd y broses o lunio'r cynllun ariannol tymor canolig yn mynd rhagddi ond dal yn anghyflawn.

85 Mae pob cyngor yn wynebu ansicrwydd ariannol sylweddol yn y tymor canolig. Gall lefel y cymorth refeniw maent yn debygol o dderbyn gan Lywodraeth Cymru newid ac efallai y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau'r cyngor yn gyrru costau i fyny. Nid yw'r cynllun tymor canolig y Cyngor eto'n cydnabod yr holl bwysau ar y gyllideb, yn enwedig goblygiadau ariannol y cytundeb statws sengl. Mae hyn yn tanseilio dealltwriaeth y Cyngor o faint yr her ariannol. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi nodi'r potensial i wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn sgil rhaglen Dyfodol Sir y Fflint, ond nid yw'r symiau'n ddigon i gau'r bwlch ariannu. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o feysydd ymchwilio eraill er mwyn canfod arbedion pellach posibl, ond mae angen i'r rhain gael eu meintoli.

86 Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw gwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i brosiectau tymor hwy, yn arbennig y rheini lle mae angen ad-drefnu gwasanaethau, ac nad yw eu manteision ariannol yn debygol o gael eu cyflawni am gryn amser. Mae'n bwysig bod y manteision ariannol bwriadedig sy'n deillio o waith o'r fath yn cael eu pennu o'r cychwyn cyntaf fel bod y Cyngor mewn sefyllfa well i fantoli ei gyllideb yn y dyfodol. Mae rhai o'r prosiectau hyn, sydd wedi'u cynllunio dwy neu dair blynedd ymlaen llaw, hefyd yn gofyn am wneud penderfyniadau cynnar er mwyn sicrhau y caiff yr arbedion bwriadedig eu cyflawni yn y flwyddyn y cynlluniwyd hynny.

87 Mae'r Cyngor wedi datblygu prosesau i alluogi Aelodau i gytuno i ailgyfeirio adnoddau i flaenoriaethau. Dangoswyd hyn yn y gyllideb ddiweddar ar gyfer 2013-14, lle gwnaeth y Cabinet nodi'n glir fod arian yn cael ei gyfeirio tuag at saith o'r 10 Blaenoriaeth Wella, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn aeddfedu'n effeithiol dros y flwyddyn nesaf er mwyn galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau hyddysg am ariannu blaenoriaethau yn 2014-15 a thu hwnt, a phrosiectau Dyfodol Sir y Fflint sy'n datblygu.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer defnyddio technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus

88 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi ffyrdd gwahanol o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion sy'n galluogi cynghorau i gyflawni mwy am lai o arian. Mae'r ffordd y caiff technoleg ei chyflenwi a'i rheoli yn cael effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith a wneir ym mhob rhan o'r Cyngor ac mae'n effeithio ar bron bob un o weithwyr y Cyngor.

89 Yn 2010, nodwyd bod llawer o awdurdodau lleol yn cael trafferth sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiadau o dechnoleg ym mhob cyngor yn ystod 2011-12.

90 Yn Sir y Fflint, canfuwyd bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r gwaith o gyflenwi'r Strategaeth Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) hefyd yn rhan o flaenoriaeth Wella'r Cyngor i 'fod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost-effeithiol'. Mae'r Cyngor wedi sefydlu seilwaith technoleg cadarn, ac mae'n dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Yn benodol, canfuwyd:

- bod trefniadau ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn gadarn gydag enghreifftiau o arfer da ond byddai dull mwy corfforaethol o ariannu technoleg yn arwain at fwy o gyfleoedd gwella;
- bod perfformiad o ran defnyddio technoleg yn gadarn ac yn gwella, ond bod lle i wella ymhellach drwy ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad yn well.

## Mae'r Cyngor yn parhau i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ei fusnes

91 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

92 Daeth Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliadau isod:

- Diwygiodd y Cyngor ei ddogfennau tendro i gynnwys gofynion y cynllun iaith a chwestiynau am y ddarpariaeth Gymraeg, a nododd bod angen cryfhau ymhellach y drefn o fonitro cydymffurfio â'r broses gaffael.
- Darperir amrywiaeth dda o gyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau i staff, ac mae nifer uchel o staff wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg.
- Mae gwendidau o safbwynt penodi siaradwyr Cymraeg i swyddi â'r Gymraeg yn sgil hanfodol, a sicrhau bod staff di-Gymraeg yn cyflawni gofynion eu swyddi o safbwynt dysgu Cymraeg.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyflwyno trefn fwy ffurfiol i fonitro ac asesu staff di-Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y gofynion perthnasol. Ni chynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chytunodd y Cyngor i roi sylw brys i hyn a blaenoriaeth i hyfforddi aelodau o staff sydd â chysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i sefydlu trefn er mwyn mesur ansawdd y gwasanaeth Cymraeg a gynigir.

## Mae'r Cyngor yn dechrau symleiddio ei drefniadau llywodraethu cymhleth wrth i'r systemau ddatblygu

93 Fel rhan o'i hymweliad dilynol, edrychodd Estyn ar ddull y Cyngor o arwain a chynllunio gwelliant ym maes addysg. Yn ei llythyr i'r Cyngor ar ddechrau 2013, dywedodd Estyn:

94 'Ers yr arolygiad yn 2011, mae'r weinyddiaeth newydd wedi blaenoriaethu'r angen am newid a gwelliant yn y gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes. Mae'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr addysg yn derbyn bod angen gweithredu'n gyflym er mwyn cael gwared ar rwystrau rhag gwella, ac eisoes nod y trefniadau ar gyfer y cynllun sengl newydd yw prif ffrydio trefniadau cynllunio. Mae aelodau ac uwch swyddogion wedi ymrwymo i gymryd penderfyniadau anodd i wella darpariaeth a defnyddio adnoddau yn effeithiol. Maent wedi cymryd camau defnyddiol i ysgogi gwelliannau ar lefel gwasanaeth er bod rhai meysydd pwysig i'w datblygu yn parhau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.

95 Mae cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y tu allan i brif drefniadau cynllunio corfforaethol y cyngor. Mae'r ddwy system gynllunio hyn yn ei gwneud yn anodd i bartneriaid weithio'n effeithiol gyda gwasanaethau addysg craidd. Mae'n arwain at ddyblygu a cholli cyfleoedd i gydweddu adnoddau ac ymyriadau i gefnogi'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed.'

96 Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i ganlyniadau ein gwaith yn y Cyngor yn ystod 2012-13. Gwelsom fod uwch arweinwyr y Cyngor yn gweithio i wella trefniadau cynllunio a llywodraethu mewnol. Mae swyddogion yn cydnabod, er bod y trefniadau presennol yn ddigonol, mae cyfleoedd i symleiddio prosesau a chael rhagor o fudd drwy gyfuno amrywiaeth o ddogfennau llywodraethu corfforaethol i greu cynllun gwella craidd cydlynol. Bydd y fath symleiddio hefyd o fudd fel a ganlyn:

- symleiddio a lleihau nifer yr adroddiadau, gan arbed amser i swyddogion ac aelodau;
- dull mwy cyd-gysylltiedig o reoli risg a chynllunio gwelliant;
- gwell ffocws ar ganlyniadau a chyflawni'r amcanion gwella;
- adfywio proses gynllunio'r Cyngor.

Mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa dda i ddatblygu gwaith yn y meysydd hyn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £317 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2012-13), gan gynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,076 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu gwario £33.6 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Sir y Fflint oedd £1,151 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.9 y cant i £1,184 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 68.4 y cant o dai Sir y Fflint yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 30 Llafur
- 19 Annibynnol
- 8 Ceidwadwyr
- 7 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 1 Plaid Cymru
- 5 Heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Yr Arweinydd yw'r Cynghorydd Aaron Shotton

Prif Weithredwr y Cyngor yw Colin Everett. Fe'i cefnogir gan:

- Ian Budd, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes;
- Neil Ayling, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol;
- Carl Longland, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir y Fflint yw:

- Sandy Mewies, Delyn, y Blaid Lafur
- Carl Sargeant, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur
- Llyr Huws Gruffydd, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Cymru
- Mark Allen Isherwood, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Rhanbarth Gogledd Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Geraldine Sandbach, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir y Fflint yw:

David Hanson, Delyn, y Blaid Lafur

Mark Tami, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB. Rhif Ffôn: 01352 752121

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol ar 29 Tachwedd 2012..

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau ond mae yna le i wella ei fesurau rheoli ariannol mewn nifer o feysydd ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gynlluniau ariannol ymhellach i'w helpu i ateb yr heriau ariannol sydd o'i flaen

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 26 Medi 2012 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn datgan eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012.

Cafodd y materion canlynol eu nodi ynglŷn â chyfrifon Cyngor Sir y Fflint:

- Roedd y cyfrifon yn cynnwys dau gamddatganiad heb eu cywiro, er nad oeddent o bwys. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r ffi am ddibrisiant ar asedau sefydlog a oedd wedi'u tanddatgan £628,000 (ac, o ganlyniad, roedd y ffigwr ar gyfer asedau anghyfredol wedi'i orddatgan £628,000), a'r ail yn ymwneud â cham-ddosbarthu grantiau gwerth £4.710 miliwn a dderbyniwyd ymlaen llaw a gafodd eu datgelu'n anghywir fel credydwyr byrdymor ar y fantolen. Fodd bynnag, darparodd y Cyngor sylwadau gan reolwyr i esbonio'r rhesymau dros beidio â diwygio'r camddatganiadau hyn a chadarnhaodd y byddant wedi'u cywiro erbyn cyfrifon 2012-2013.
- Roedd asedau anghyfredol (sefydlog) a chyfrifon cysylltiedig yn destun ailddatgan sylweddol am nifer o resymau, ond yn enwedig gan nad oedd y gyfres ddrafft o gyfrifon wedi'i chysoni â'r system feddalwedd asedau sefydlog newydd. Arafodd hyn gynnydd yr archwiliad gan na ddarparodd y Cyngor y gwaith cysoni terfynol a'r diwygiadau dilynol i'r cyfrifon tan yn ddiweddarach yn y ffenestr archwilio.
- Roedd yna nifer o faterion cyffredinol yn ymwneud ag ansawdd y cyfrifon a'r cofnodion ategol, ac roeddem wedi adrodd ar rai ohonynt yn flaenorol, gan gynnwys: yr angen i fantoli eitemau yn y cyfrifon, sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion datgelu a sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael i brisio Tai Cyngor yn gywir.
- Roedd yna dri mater arall a oedd yn arwyddocaol i oruchwylio'r broses adrodd ariannol:
  - Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'n dibynnu gormod ar gyngor allanol wrth baratoi ei amcangyfrifon ariannol. Defnyddiodd y Cyngor amcangyfrifon a baratowyd gan arbenigwr annibynnol fel sail i'w ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer ei atebolrwydd cyflog cyfartal heb gynnal unrhyw adolygiad. Yn y datganiadau terfynol, diwygiwyd y ffigur i roi adlewyrchiad mwy cywir o'r atebolrwydd posibl.
  - Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol, nid oedd y Cyngor yn cydnabod atebolrwydd am gyfraniadau pensiwn ar ei atebolrwydd cyflog cyfartal. Mae hyn yn groes i gyngor cyfreithiol a gafodd yr Archwilydd Penodedig sy'n awgrymu y dylid talu cyfraniadau pensiwn ar daliadau i ddatrys hawliadau cyflog cyfartal. O ystyried y gwahanol safbwyntiau cyfreithiol ac ansicrwydd ynglŷn â'r angen i gydnabod darpariaeth, daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad na fyddai'n cymryd unrhyw gamau pellach fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2011-2012.
  - Methodd nifer o aelodau â dychwelyd datganiadau parti cysylltiedig a oedd yn ofynnol i gydymffurfio â gofynion datgelu.

Ers cymeradwyo'r datganiadau ariannol, rwy'n deall bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu a phennu goblygiadau ariannol statws sengl a chyflog cyfartal yn glir, gan ei fod yn gweithio gyda phartïon perthnasol i roi ei gytundeb statws sengl ar waith.

Cafodd y mater canlynol ei nodi ynglŷn â chyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd:

- Roedd y cyfrifon yn cynnwys camddatganiad heb ei gywiro, er nad oedd o bwys. Cofnodwyd buddsoddiadau yn y cyfrifon yn seiliedig ar adroddiadau prisio a oedd ar gael adeg eu paratoi. Cyn cwblhau'r archwiliad, cafwyd adroddiadau prisio mwy diweddar a ddangosodd fod buddsoddiadau hyd at 31 Mawrth 2012 wedi'u tanddatgan £2.297 miliwn. Fodd bynnag, gan fod yna broblem gyda'r amseru, darparodd y Cyngor sylwadau gan reolwyr, a dderbyniwyd gennym, i esbonio'r rheswm dros beidio â chywiro'r camddatganiad.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio'r cyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Yn gyffredinol, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Fel y crybwyllwyd yn llythyr Asesu Gwelliannau diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cyngor (dyddiedig Hydref 2012), mae angen datblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) ymhellach, ac mae'r Cyngor yn cydnabod hyn. Yn ei ymateb i'r Llythyr Gwelliannau, nododd y Cyngor nad yw'r cynllun yn ddisymud gan fod y Cyngor yn ei adolygu'n barhaus yn ei ymateb i anwadalrwydd cyllid cyhoeddus, yr economi a'r heriau amrywiol sy'n wynebu llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

Mewn adroddiad i'r Cabinet (16 Hydref 2012), amlinellodd y Pennaeth Cyllid sut mae'r MTFP wedi'i ddatblygu'n unol ag amcanion allweddol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Nododd yr adroddiad fwlch posibl yn y gyllideb, sef £8.4 miliwn ar y pryd, y mae angen canfod arbedion effeithlonrwydd yn ei erbyn er mwyn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Gan ddefnyddio rhagdybiaethau cynllunio tebyg, byddai hyn yn fwlch o £35 miliwn dros gyfnod yr MTFP hyd at 2017-18. Nodwyd hefyd y byddai'r MTFP yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw oblygiadau refeniw yn deillio o:

- ddatblygu'r rhaglen gyfalaf sy'n digwydd yn ystod mis Hydref;
- chanlyniad y trafodaethau ar statws sengl a'r Cyngor yn dod i gytundeb ar hynny.

Deallaf gan y Cyngor fod gwaith yn parhau gyda chynlluniau cyllideb 2013-14 ac y cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr ar y cynigion bwlch cyllideb ar gyfer cyllideb 2013-14, gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ochr yn ochr â diweddariad am y goblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n bryderus bod y gwaith o roi mesurau effeithlonrwydd ar waith, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau, yn aml yn gofyn am gryn amser rhwng gwneud y penderfyniad a gwireddu'r arbediad. Er bod rhai elfennau o raglen Dyfodol Sir y Fflint yn canolbwyntio ar y tymor canolig, nid dyma'r sefyllfa yn gyson ledled y rhaglen ehangach, lle mae rhai cynlluniau'n parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar y tymor byr. Mae'n hanfodol ar gyfer pob prosiect o fewn y rhaglen fod yna eglurder o ran amseru a'r buddiannau i'w cyflawni ac, os ydynt yn arwain at arbedion ariannol, sut a phryd y mae'n effeithio ar

y cynllun ariannol tymor canolig. Mae’r Cyngor yn cydnabod hyn ac, yn ddiweddar, mae wedi adolygu ei drefniadau mewnol trwy sefydlu Bwrdd Dyfodol Sir y Fflint sy’n cynnwys aelodau a swyddogion i oruchwylio’r gwaith o gyflwyno ei raglen effeithlonrwydd.

Nid wyf wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau gan fod mater heb ei ddatrys a godwyd gan aelod o’r cyhoedd y mae angen i mi wneud ymholiadau yn ei gylch.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â’r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yours sincerely

John Herniman
Cyfarwyddwr y Grŵp

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2012

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae’n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o’r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy’n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i’r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae’n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i’r archwilydd os ydych o’r farn bod rhywbeth o’i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae’r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-2017 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk. Y rhain yw:

| **Amcanion Gwella 2011-12 a 2012-17** |
|---|
| Bod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost-effeithiol drwy ein pedair strategaeth adnoddau - y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl, y Strategaeth Rheoli Asedau a'r Strategaeth TGCh - gan sicrhau bod ein trethi lleol a'n ffioedd a'n taliadau yn deg ac yn fforddiadwy. |
| Sicrhau'r arbedion mwyaf drwy gydweithredu'n rhanbarthol ac yn is-ranbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol. |
| Bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg sy'n cynnig cyflogau a thelerau ac amodau gwaith teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl. |
| Sicrhau gwasanaethau a gofal cwsmeriaid o'r safon uchaf drwy gyfrwng ein Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid. |
| Sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, gan roi blaenoriaeth i blant a phobl hŷn. |
| Diogelu a hybu'r economi leol a rhanbarthol, bod yn Sir ffyniannus a rhoi cymorth a chefnogaeth i'r rhai sy'n agored i dlodi. |
| Cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, yn iach ac yn llawn yn y gymuned a chynnig gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd cefnogol a phersonol o'r radd flaenaf. |
| Diwallu anghenion tai yn y Sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o dai fforddiadwy, o safon, a gwasanaethau tai ym marchnadoedd tai'r sector, y sector deiliadaeth gymysg a'r sector preifat. |
| Gweithio gyda'n hysgolion, ein colegau a phartneriaid eraill i sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd modern, o safon i bobl o bob oed ddysgu, chwarae a mwynhau diwylliant a hamdden. |
| Diogelu, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk.

# Atodiad 5
# Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor

Yn ystod ein gwaith ers 2010, rydym wedi gwneud cynigion neu argymhellion ar gyfer gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt eisoes ac fe'u nodir hynny isod er gwybodaeth. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â llawer o'r rhain, a nodir isod. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion neu'r argymhellion sy'n weddill o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad corfforaethol rhagarweiniol 2010** | | |
| C1 | Adolygu trefniadau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad priodol cynghorwyr yn cael eu cynnal. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| C2 | Cwblhau'r gwaith ar Fframwaith Cynllun (Llywodraethu) y Cyngor. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| C3 | Datblygu'r broses er mwyn dyrannu adnoddau i flaenoriaethau. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| C4 | Cwblhau Strategaeth Pobl 2009-2012 a chynllun gweithredu. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2011**<br>Fel yr uchod a dylai'r Cyngor: | | |
| C1 | Cwblhau'r adolygiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth, gan eu mabwysiadu'n ffurfiol fel blaenoriaethau'r Cyngor, a'u cyhoeddi'n eang. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| C2 | Pennu bod trefniadau arwain ac atebolrwydd clir, mesurau llwyddiant a phrosesau adrodd ar gynnydd yn erbyn ei holl flaenoriaethau. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau, gan fod argymhellion mwy diweddar wedi'i ddisodli. |
| **Llythyr diweddaru'r asesiad corfforaethol 2011** | | |
| C1 | Erbyn diwedd 2011, dylai'r Cyngor gwblhau'r gwaith o ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig er mwyn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg ar sut yr eir i'r afael â phwysau ariannol a sut y dyrennir adnoddau i gyflawni amcanion gwella. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau, gan fod argymhellion mwy diweddar wedi'i ddisodli. |
| C2 | Erbyn diwedd mis Hydref 2011, dylai'r Cyngor gwblhau ei adolygiad o'r cynnydd cyffredinol o ran Strategaeth Pobl 2009-12, blaenoriaethu'r camau gweithredu sy'n weddill a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni, a chyflwyno adroddiad ar hyn i aelodau etholedig. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |

| | | |
|---|---|---|
| C3 | Gwella'r dull corfforaethol o ymgysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys trefniadau i wella cyfraniad aelodau etholedig. | Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae hwn yn faes i'w wella o hyd ac mae'r cynnig yn aros yn ei le. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2012**<br>Mae'r argymhellion hyn yn dilyn y cynigion ar gyfer gwella a wnaed ym mis Awst 2010 a mis Awst 2011. | | |
| **Argymhellion:** | | |
| A1 | Dylai'r Cyngor gyflwyno adroddiadau mwy cyflawn a rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol ar hynt y strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cytundeb Statws Sengl, a sicrhau bod gallu ac adnoddau ar gael i gyflawni'r canlyniadau a'r amserlenni bwriadedig. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |
| A2 | Mae angen i'r Cyngor gwblhau ei waith ar feintioli manteision ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-2013, er mwyn pennu'r bwlch ariannu sy'n weddill (diffyg neu warged) ac yna lunio cynlluniau clir i nodi arbedion pellach a/neu ailgyfeirio adnoddau at flaenoriaethau. | Gwnaed cynnydd, er na wnaeth y Cyngor fodloni'r amserlen a gynlluniwyd yn llawn. Mae gwaith y Cyngor yn mynd rhagddo a byddwn yn adolygu cynnydd ac yn cyflwyno adroddiad arno yn ystod 2013. |
| **Cynigion ar gyfer gwella:** | | |
| C1 | Cwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i bennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer pob amcan gwella a sicrhau y cyflwynir adroddiadau clir a rheolaidd. | Cafodd y cynnig hwn ar gyfer gwella ei gyflwyno i'r Cyngor gyntaf ym mis Ionawr 2011.<br>Gwnaed cynnydd da, er bod angen i'r Cyngor barhau i wneud gwaith yn y maes hwn yn 2013. |
| C2 | Llunio a chytuno ar gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad cwsmeriaid gan ddangos sut y cyflawnir mesurau llwyddiant a chynnig gwerth am arian. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Byddwn yn adolygu'r gwaith hwn yn 2013 ac yn cyflwyno adroddiad arno yn ystod 2013. |
| C3 | Sicrhau bod ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref yn unol â gofynion statudol a'i fod yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru'n well. | Bodlonwyd gofynion adrodd yn 2012, ond cafodd cynnig pellach ar wella ansawdd yr adroddiad ei wneud yn 2013. Felly, mae'r cynnig hwn wedi'i gwblhau bellach. |
| C4 | Gwella trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y data a ddefnyddir i gefnogi gwaith rheoli a monitro perfformiad yn gywir ac yn gadarn. | Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae bellach wedi'i gwblhau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Llythyr 1 2013:** Dim cynigion nac argymhellion newydd ar gyfer gwella | | |
| **Llythyr 2 2013:** | | |
| *Cynllunio Gwelliant* | | |
| C1 | Yng nghyd-destun ei waith cynllunio corfforaethol tymor canolig, dylai'r Cyngor ddiffinio set o Amcanion Gwella blynyddol sy'n adlewyrchu ei uchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn a'u cyfleu mewn ffordd sy'n galluogi'r cyhoedd i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad. | Cyfredol. |
| C2 | Sicrhau bod y Cynllun Gwella sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n deillio o adolygiadau yn ystod y flwyddyn a bod unrhyw Gynllun diwygiedig yn cynnwys cofnod o unrhyw newidiadau o'r fath. | Cyfredol. |
| *Adrodd ar Welliant* | | |
| C3 | Cynyddu'r defnydd o ddata perthnasol er mwyn cefnogi gwerthusiad y Cyngor o ganlyniadau mewn perthynas â'i Amcanion Gwella | Cyfredol. |
| C4 | Gwella cydbwysedd y naratif sy'n cefnogi pob asesiad, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o waith arbennig o lwyddiannus a gwaith nad oedd gystal. | Cyfredol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk